Cylchlythyr CBAC – Medi 2025

# TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant

## Croeso Nôl

Croeso nôl ar ôl gwyliau'r haf. Eleni oedd y flwyddyn gyntaf i dasgau Asesiad Di-arholiad Uned 2 a 4 gael eu cyflwyno'n ddigidol drwy IAMIS. Byddwn yn parhau gyda'r drefn hon ar gyfer cyflwyniad terfynol yr hen gymhwyster (haf 2026), a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno marciau ar IAMIS ac uwchlwytho gwaith yw 5 Mai. Mae adroddiadau cymedrolwr unigol i'w cael ar y Porth; gwnewch yn siŵr eich bod yn ymgyfarwyddo â'r adroddiad ac yn rhoi unrhyw argymhellion ar waith. Mae adroddiadau Uwch Arholwyr haf 2025 bellach ar gael ar dudalen Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant: Dysgu Iechyd a Gofal Cymru.

Eleni bydd sesiynau adborth ar asesiadau'r haf yn cael eu cynnal ar-lein. I gadw eich lle, cliciwch ar y cyswllt isod:

- TGAU IGCGP (hen fanyleb) Gradd Unigol: Adborth ar asesiadau'r haf (Saesneg) AM DDIM – 30/09/2025
- TGAU IGCGP (hen fanyleb) Gradd Unigol: Adborth ar asesiadau'r haf (Cymraeg) AM DDIM – 06/10/2025

Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

### Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol Tymor yr Hydref

Mae ein Pecyn Adborth Asesu newydd ar gyfer 2025-26 yn gyfle i feithrin gwell dealltwriaeth o sut mae asesiadau'n cael eu marcio neu eu cymedroli. Mae'r gyfres gyfannol hon o adnoddau a hyfforddiant yn cyfuno mynediad rhad ac am ddim at adroddiadau Uwch Arholwyr, sgriptiau wedi'u marcio, a sesiynau adborth asesu ar-lein, yn ogystal ag amrywiaeth o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb dewisol â thâl. Dysgwch fwy am sut gallwch chi – a'ch dysgwyr – elwa ar ein Pecyn Adborth Asesu yma: Pecyn Adborth Asesu 2025-26. Gallwch lawrlwytho Adroddiad diweddaraf yr Uwch Arholwr a chofrestru ar gyfer digwyddiadau adborth ar-lein AM DDIM ar eich tudalen cymwysterau.

### Cymhwyster TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant *Gwneud i Gymru* Newydd

Rydym yn edrych ymlaen at lansio'r fanyleb newydd ar gyfer TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant. Dyma rai dyddiadau allweddol ar gyfer eich dyddiaduron, gan gynnwys gwybodaeth am gyfleoedd Dysgu Proffesiynol sydd i ddod.

### Dyddiadau allweddol

Cyhoeddi manylebau wedi'u cymeradwyo: 30 Medi 2025

Cyhoeddi deunyddiau asesu enghreifftiol: 17 Rhagfyr 2025

Cyhoeddi canllawiau addysgu: 22 Ionawr 2026

### Digwyddiadau a Deunyddiau DP

| Math o DP | Nodau | Fformat a Nodiadau |
|---|---|---|
| Modiwl Eich Canllaw i'r fanyleb newydd<br><br>**Ar gael o ddiwedd mis Medi 2025** | *Cefnogi eich dealltwriaeth o'r ddogfen.* | *Bydd y modiwl anghydamserol hwn ar y tab "hyfforddiant ar alw" eich tudalen gymwysterau ar wefan CBAC. Bydd angen i chi gofrestru i gael mynediad i'r cyswllt i'w gweld.* |
| Taflenni nosweithiau rhieni / opsiynau<br><br>**Ar gael o ddiwedd mis Medi 2025** | *Eich cefnogi i ddarparu gwybodaeth i rieni a dysgwyr cyn dechrau astudio.* | Bydd y PDF hwn yn cael ei gyhoeddi ar dudalen gartref eich cymhwyster. |
| Sesiwn Holi ac Ateb a Briffio Cymwysterau, yn Fyw ac Ar-lein<br><br>**Ar gael ail hanner tymor yr hydref 2025.**<br><br>**Mae'r digwyddiadau ar agor ar gyfer cofrestru. Ewch i'r tab *Hyfforddiant* ar dudalen we eich cymhwyster newydd i gofrestru.**<br><br>17/11/2025 (Saesneg)<br><br>24/11/2025 (Cymraeg) | *Cefnogi eich dealltwriaeth o'r cymhwyster newydd, ei gynnwys a'i strwythur asesu. Bydd y digwyddiad byw hefyd yn cyfeirio at adnoddau a DP sydd ar y gweill gan gynnig cyfle i ofyn cwestiynau i'n Timau Pwnc ac arbenigwyr manylebau.* | *Bydd y digwyddiadau ar-lein byw hyn yn cael eu hysbysebu ar wefan CBAC, a bydd gofyn i chi gofrestru drwy gyswllt. Byddant yn cael eu cynnal yn fyw ar* Teams (Townhall).<br><br>*Bydd y digwyddiadau'n cael eu cyflwyno gan Ymgynghorwyr Pwnc CBAC gyda chefnogaeth holi ac ateb gan Swyddogion Pwnc CBAC. Bydd digwyddiadau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg (ac eithrio cymwysterau Cymraeg a Saesneg).* |
| * Paratoi i Addysgu (wyneb yn wyneb)<br><br>Ar gael o 09/02/26 i 27/03/26<br><br>**Eich pennaeth fydd yn casglu'r cofrestriadau ar gyfer y diwrnodau HMS ledled Cymru. Ni fydd modd cofrestru drwy wefan CBAC.** | *Cefnogi addysgu'r fanyleb newydd. Y nod yw canolbwyntio ar ddeall yr asesiadau, amcanion asesu, cynnwys a dulliau addysgu yn seiliedig ar y fanyleb, deunyddiau asesu enghreifftiol a chanllawiau addysgu.* | *Mae'r dyddiau hyn yn digwydd ar ddiwrnodau HMS rhanbarthol dynodedig – cyfres o 12 diwrnod yw hon i'w chynnal ledled Cymru, gan gynnwys 2 ddiwrnod cyfrwng Cymraeg ac 1 diwrnod dwyieithog. Bydd cofrestriadau'n cael eu casglu drwy eich pennaeth/pennaeth y ganolfan.*<br><br>*Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu harwain gan* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Ymgynghorwyr Pwnc CBAC a'n timau cyflwyno arbenigol.* |
| Adnoddau Arweiniad i'r Arholiad ac Asesiadau di-arholiad<br><br>**Ar gael tymor yr Haf 2026**<br><br>**Mynediad drwy wefan ddiogel Porth CBAC** | *Eich cefnogi chi a'ch dysgwyr i ddeall strwythur papurau cwestiynau/briffiau Asesiadau Di-arholiad, mathau o gwestiynau, amcanion asesu a dulliau marcio.* | *Dim ond ar wefan ddiogel Porth CBAC y bydd y cyflwyniadau PowerPoint hyn a recordiwyd ymlaen llaw yn cael eu cyhoeddi i ddechrau.* |

* Gellir dod o hyd i'ch dyddiad HMS wyneb yn wyneb rhanbarthol dynodedig (Paratoi i Addysgu) yma: TGAU Gwneud-i-Gymru - Dysgu Proffesiynol | Made-for-Wales GCSEs - Professional Learning |

## Cysylltwch â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pwnc-benodol, cysylltwch â'r tîm drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol: HSCandCC@wjec.co.uk. Karen Bushell yw'r Swyddog Pwnc ar gyfer TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.